PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 12 | Mawrth 23, 2023 | 50c.

## Y MESUR MUDO ARSWYDUS

**Yng nghyfarfod Cyngor Undeb yr Annibynwyr yn Aberystwyth, cafodd Mesur Mudo Anghyfreithlon Llywodraeth y DU ei feirniadu'n hallt.**

Mewn llythyr a anfonwyd ar ran yr Undeb i'r Ysgrifennydd Cartref, Suella Braverman, dywedodd y Llywydd, y Parchg Beti-Wyn James, i'r aelodau gael eu harswydo gan y bwriad i alltudio plant sydd heb gwmni, teuluoedd a menywod unigol o'r gwersylloedd cadw. Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymddwyn yn groes i gyfraith ryngwladol a chonfensiynau hawliau dynol drwy drin ceiswyr lloches sy'n croesi Sianel Lloegr mewn cychod bychain fel troseddwyr, meddai.






*Cafwyd bendith fawr yng Nghaersalem Pontyberem wrth i ni ddathlu Gŵyl Ddewi gyda'n gilydd. Ar fore Sul 5 Mawrth daeth cynulleidfa dda ynghyd i glodfori'r Arglwydd.*

Mae'r Undeb yn annog Ms Braverman i ystyried darparu llwybrau mynediad mwy diogel a chyfreithlon i'r Deyrnas Unedig, er mwyn galluogi ceiswyr lloches i gael eu hachosion wedi'u prosesu'n gyfreithiol mewn modd trugarog a gwâr.

### Y Llythyr yn llawn:

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Rwy'n ysgrifennu ar ran Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, sy'n cynrychioli Cristnogion o bob lliw gwleidyddol sy'n cyfarfod mewn 350 o gapeli ledled Cymru.

Mae'r Mesur Mudo Anghyfreithlon a'i ganlyniadau i'r rhai sy'n ffoi rhag gwrthdaro ac erledigaeth yn peri gofid mawr i'n haelodau. Yn benodol, cawsom ein harswydo gan y cymal a fyddai'n caniatáu alltudio plant sydd heb gwmni, teuluoedd a menywod unigol o'r gwersylloedd cadw.

Credwn fod y Bil yn adlewyrchu'n wael ar enw da y DU drwy fynd yn groes i gyfraith ryngwladol a chonfensiynau hawliau dynol drwy drin ceiswyr lloches, sy'n peryglu eu bywydau drwy groesi Sianel Lloegr mewn cychod bach, fel troseddwyr. Fel y mae nawr, bydd y Bil yn gwadu cefnogaeth i ddioddefwyr caethwasiaeth fodern a'r rhai a fasnachwyd gan droseddwyr sy'n smyglo pobl, a fydd yn siŵr o ganfod ffyrdd eraill i mewn i'r DU. Yn ein barn ni, ni fydd y Mesur yn atal mudo anghyfreithlon.

Rydym yn eich annog yn barchus i ystyried darparu llwybrau mynediad mwy diogel a chyfreithlon i'r DU, er mwyn galluogi ceiswyr lloches i gael eu hachosion wedi'u prosesu'n gyfreithiol mewn modd trugarog a gwâr.

Sylweddolwn fod y Mesur Mudo Anghyfreithlon eisoes wedi cychwyn ar ei ffordd drwy'r Senedd ac nad oes modd ei dynnu'n ôl. Ond fel pobl o ffydd, rydym yn erfyn arnoch chi, fel Bwdhydd o argyhoeddiad, ac yn enw ein dynoliaeth gyffredin, i dderbyn Gwelliannau i'r ddeddfwriaeth. Gall y rheiny, o leiaf, leddfu'r dioddefaint y bydd y Bil hwn, heb os, yn ei achosi i bobl sydd mewn gofid ac anobaith yn ffoi rhag erledigaeth.

Yn gywir,

**Parchedig Beti-Wyn James BD MTh**
**Llywydd, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

# Cyngor Undeb yr Annibynwyr



*Ar ddydd Mawrth 14 Mawrth fe gynhaliwyd cyfarfyddiad o Gyngor Undeb yr Annibynwyr gyda chynrychiolwyr y Cyfundebau o Gymru a thu hwnt yn ymgynnull at ei gilydd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dyma beth o flas y pynciau pwysig a drafodwyd ganddynt.*

## ADRAN DINASYDDIAETH GRISTNOGOL

Dyma gofnod byr o'r hyn a drafodwyd yng nghyfarfod Adran Dinasyddiaeth Gristnogol yr Undeb ar 14 Mawrth 2023:-

Bwletin Polisi Cytûn (Chwefror/Mawrth 2023) –

Cefnogwyd y cais, ar ran Cytûn, i annog aelodau'r capeli i lofnodi deiseb Climate Cymru:-

> 'Mae Climate Cymru, y mae Cytûn yn aelod ohono, yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu trwy ddarparu cymorth brys i aelwydydd bregus, gweithredu rhaglen effeithlonrwydd ynni uchelgeisiol, cynyddu ynni adnewyddadwy cost isel yn gyflym a'n rhyddhau ni rhag Tanwydd Ffosil.'

Dweud wrth Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i gadw pobl yn gynnes y gaeaf yma. <https://actionnetwork.org/petitions/tell-welsh-government-to-take-urgent-action-to-keep-people-warm-this-winter>

### Creu Eglwysi Dementia-gyfeillgar –

Adroddwyd bod y gweithgor wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda'r gyfundebau ers mis Hydref 2022, yn rhithiol, ac wyneb yn wyneb, gan gynnwys un yng nghwmni Cheryl Williams o Gymdeithas Alzheimer Cymru.

Cafodd yr ymgyrch sylw gan John Roberts ar raglen *Bwrw Golwg* ar Radio Cymru ar Sul 5 Chwefror, a bu Swyddog y Wasg, Undeb yr Annibynwyr, yn llythyru â 50 o bapurau bro ledled Cymru.

### Economi Bywyd a Newid Hinsawdd –

Cytunwyd â chasgliadau adroddiad a baratowyd gan Dr Fiona Gannon fod cyfnod cyntaf y Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd bellach wedi dod i ben.

Awgrymwyd symud ymlaen at ymgyrch newydd, gan annog y to ifanc sydd â diddordeb ac arbenigedd yn y maes yma i gymryd rhan, gyda'r gweithgor yn parhau i weithredu fel corff ymgynghorol.
Cafwyd braslun o bum maes penodol y gellid ei mabwysiadu - dillad; bwyd; teithio; ynni; meddylfryd.

### Apêl Arbennig yr Undeb / Cymorth Cristnogol 2023

Yn dilyn trafodaethau rhwng cynrychiolwyr yr Undeb a Chymorth Cristnogol, dewiswyd Colombia yn ganolbwynt i'r apêl. Bydd yr apêl yn cael ei lansio yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb a gynhelir yn y Stiwt, Rhosllannerchrugog ar ddiwedd mis Mehefin eleni.

### Mesur Mudo Anghyfiawn

Mae Mesur Mudo Anghyfiawn" yn cael ei drafod yn San Steffan ar hyn o bryd. Awgrymwyd y dylid cyflwyno cynnig brys i'r Cyngor i anfon llythyr at yr Ysgrifennydd Cartref, Suella Braverman, i ofyn am dderbyn gwelliannau i'r Mesur er parch a diogelwch i'r ceiswyr lloches rheini sy'n cyrraedd glannau Prydain mewn cychod bychain o'r cyfandir. Fe wnaed hynny ar yr 16eg o Fawrth, yn ogystal â gosod fideo ar wefan yr Undeb, ac ar y cyfrif Trydar. Bu i Golwg360 hefyd ei gynnwys.

**Rhodri-Gwynn Jones,**
Ysgrifennydd Adran Dinasyddiaeth Gristnogol





## ADRAN TYSTIOLAETH

Cadeiriwyd yr adran gan y Parchg Euron Hughes gyda'r Parchg Iwan Llewelyn Jones yn cofnodi yn absenoldeb y Parchg Dylan Rhys Parry.

Rhoddwyd sylw dyledus i'r Genhadaeth Ddigidol – MSP4. Deallwyd bod 'Heulwen Dan Gymylau' (Eglwysi Dementia-gyfeillgar) bellach i'w gael ar y we, a bod podlediadau Y Cwmni Bach yn ymddangos unwaith y mis.

Tanlinellwyd hefyd cenhadaeth sain a cherddoriaeth, a bod angen dysgu mwy o gynnwys *Caneuon Ffydd*.

### Plant, Ieuenctid a'u rhieni – ein her a'n cyfle.

Cafwyd trafodaeth lawn ar y mater hwn a sawl cyfraniad gwerthfawr.

a) Mynegwyd bod yr ysgol Sul yn gyffredinol wedi dioddef o ganlyniad i gyfnod Covid.

b) Ein hoedfaon, fel ag y maent heddiw, ddim yn apelio

c) Yng nghysylltiadau clybiau ieuenctid Cristnogol, mynegwyd yr awydd i gael arweinwyr o blith y to ifanc.

d) Rhaid mentro i fyd y digidol, a gofynnwyd y cwestiwn sut y gellid mynd i mewn i fyd yr ifanc?

dd) Clywyd am fentrau newydd cymunedol yn rhai o'n hardaloedd a bod y pwyslais yn drymach ar deuluoedd ac nid yn unig y plant a'r bobl ifanc a bod rhaid bod yn ddiolchgar am arwyddion bychan o obaith.

e) Roedd rhai am ofyn i'r bobl ifanc beth yn union yr oedden nhw'n dymuno ei gael ac eraill yn pwysleisio bod angen ychwanegu llais y rhieni yn y cwestiwn. Nodwyd hefyd y byddai'n dda cael enghreifftiau o wahanol ardaloedd, a gofyn i un teulu ymhob ardal lenwi holiadur.

f) Nodwyd bod cael argyhoeddiad Cristnogol personol yn allweddol i unrhyw ddatblygiad.

### Eisteddfod Genedlaethol

Cafwyd trafodaeth fuddiol ar ofalu rhoi'r lle canolog i Efengyl Iesu Grist a Christnogaeth yn y darpariaethau crefyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyffredinol o hyn ymlaen a gofynnwyd i'r Cyngor llawn drafod y mater hwn.

**Iwan Llewelyn Jones**

Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 23 2023 RHIF 108

# Y 'Pethau Bychain' a'r Cwmwl Mawr: neges Dewi ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain

Beth yw'r rheswm fod Dydd Gŵyl Dewi'n para mor bwysig yn ein golwg fel Cymry? Mae'n anodd deall pa apêl sydd gan eiriau olaf ein nawddsant, 'Cadwch eich ffydd a'ch cred', i genedl sy'n prysur droi ei chefn ar y ffydd Gristnogol yn gyfan gwbl, a dim ond 43% o'i phoblogaeth yn ei harddel mewn unrhyw ffordd. Tybed a yw'r ateb i'w boblogrwydd parhaol i'w gael yn ail gymal ei eiriau olaf: 'Gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi'? Credaf mai dyna'r allwedd i'r anwyldeb y mae'n ei hawlio yng nghalon ein cenedl, a'r ffaith fod ei neges yr un mor berthnasol yn ein hoes ni, ac i fyd yr unfed ganrif ar hugain, â'r hyn ydoedd bymtheg canrif yn ôl. Mewn gair, ei bwyslais ar *symlrwydd bywyd* sy'n cydio yn nychymyg y genhedlaeth bresennol; roedd hynny'n nodweddu holl gymeriadau Oes y Saint yng Nghymru yn y chweched ganrif: Illtud, Seiriol, Cybi, Deiniol, Dyfrig, ac eraill. Fel Dewi ei hun, mynachod tlawd oeddent, yn byw'n syml ac yn crwydro'r wlad i bregethu.

Aeth ein bywydau ni'n gymhleth iawn ar lawer ystyr, a thra mae bywyd Dewi, ynghyd â'i neges olaf, yn ein cymell i fyw'n syml drwy barchu creadigaeth Duw, rydyn ni'n cynnal ein ffordd o fyw drwy ei rheibio a'i chamddefnyddio. Nid ydym bob amser yn ymwybodol o hynny, ac er ein holl ymdrechion heddiw i fyw'n fwy 'gwyrdd' a chynaliadwy, mae'r niwed a wnawn i'r ddaear, ac i'n cyd-ddyn, yn parhau i fod yn sylweddol. Cymerwn ddwy enghraifft o hynny, o bethau sy'n rhan anhepgor o'n bywydau ni i gyd erbyn hyn.

Flynyddoedd yn ôl, petaem am ddod o hyd i ryw ffaith arbennig, neu ddyfyniad nad oeddem yn hollol sicr ohono, byddem yn estyn cyfeirlyfr o'r silff, neu'n treulio awr hyfryd yn pori yn y llyfrgell. Heddiw, mae'n haws o lawer: dim ond teipio gair neu ymadrodd allweddol i mewn i Google ar ein ffôn clyfar, iPad neu gyfrifiadur, ac fe ddaw'r ateb mewn eiliad. Mor rhwydd, ac mor gyflym! Ond mae pob ymchwiliad a wnawn; pob llun yr ydym yn ei gadw; pob ebost, neges destun neu WhatsApp a anfonwn; pob munud a dreuliwn ar gyfryngau cymdeithasol, a phopeth yr ydym yn ei brynu ar lein, yn cael eu cadw a'u cofio. Ymhle mae'r holl ddata yma'n cael ei storio? 'Ar y Cwmwl', meddwn ni! A beth yw'r Cwmwl? Mewn gwirionedd, mae'r enw'n beryglus o gamarweiniol, yn awgrymu rhyw fyd rhithiol yn yr awyr nad yw'n bodoli mewn unrhyw ffordd goncrid. Yn anffodus, mae hynny ymhell o fod yn wir. Ar draws y byd mae yna rwydwaith o filoedd o ganolfannau data enfawr, a phob un yn cynnwys cannoedd o gyfrifiaduron sy'n prosesu a storio'r holl wybodaeth a delweddau hyn.* Mae'r peiriannau hynny'n farus iawn yn eu defnydd o drydan a dŵr. Wyddoch chi, bob tro y byddwn yn treulio pum munud yn chwilio ar Google, rydym yn defnyddio'r un faint o drydan â'r hyn a wnawn wrth ferwi llond tecell o ddŵr? Nid ni sy'n talu amdano'n uniongyrchol, wrth gwrs, ond mewn dyddiau pan yw prisiau ynni'n ein gorfodi i fod yn ddarbodus wrth ei ddefnyddio, a'r gost i'r blaned o'i gynhyrchu yn ein cymell i chwilio'n cydwybod, fe ddylai'r ffaith syml fod pob ymchwiliad ar y we yn gyfystyr â berwi'r tecell ein sobri. Wedyn, wrth inni luosi hynny yn ôl nifer y bobl sy'n defnyddio'r we dros y blaned i gyd, fe ddaw'r cwestiwn moesol yn amlwg: oni ellid defnyddio'r holl drydan a dŵr prin yna er lles cymunedau anghenus yn y byd? Oes, mae i bopeth ei bris, ac mae ôl troed ein bywyd slic yn drwm iawn.

A throi wedyn at agwedd arall ar fywyd cyfoes. Peth canmoladwy, dybiwn i, yw gweld cymaint o bobl yn prynu ceir newydd trydan neu hybrid, ac mae'n braf gweld bysiau newydd o amgylch Caerdydd â'r datganiad yma arnynt: 'Dim allyriadau'. Ond mae'r ceir a'r bysiau hyn yn dibynnu ar fatris y mae modd eu hailwefru, ac er mwyn



Llun: Tom Wheatley ar Unsplash

cynhyrchu'r batris hynny mae'n rhaid cael cyflenwad digonol o lithiwm. Caiff y rhan fwyaf o lithiwm ei gynhyrchu yn Awstralia a De America, Chile yn bennaf, ac mae llawer o gyhoeddusrwydd wedi ei roi yn ddiweddar i gymunedau brodorol Chile, sy'n colli eu tir wrth i fwyngloddiau gael eu suddo i gloddio am lithiwm. At hynny, mae'r ffynonellau dŵr yn yr ardaloedd hynny'n cael eu llygru, gan achosi salwch ac achosion o wenwyno. Maes o law, caiff y lithiwm ei allforio i China i gael ei brosesu, ac yno hefyd y cynhyrchir y rhan fwyaf o'r batris a ddefnyddiwn ni. Mae'n wir y gallen ni gloddio am lithiwm a chynhyrchu'r batris ein hunain, ond tan hynny mae eu taith yn gostus i'r blaned a'i phobl.

Mae yna gymaint o bethau y gallwn *ni* eu gwneud yn wyneb y problemau hyn: bod yn gyfrifol wrth ddefnyddio'n teclynnau digidol, er enghraifft, a dileu pethau nad oes angen inni eu storio am byth; a bod yn ystyriol wrth deithio. Dyna pam yr arhosodd geiriau olaf Dewi Sant gyda mi eleni: 'Gwnewch y pethau bychain', a pham y dylai ei fywyd syml ein herio o'r newydd. Mae yna arwyddion bod y dyhead am fywyd symlach yn cydio yn nychymyg llawer o bobl heddiw. Er enghraifft, cynyddodd y diddordeb yn hanes saint a mynachod y canrifoedd cynnar a'u ffordd o fyw, a thyfodd yr arfer o bererindota i fannau cysegredig a chadeirlannau hynafol.

Un o gyfansoddwyr blaenllaw America yn yr ugeinfed ganrif oedd Aaron Copland, ac yn aml mae ei weithiau'n adlewyrchu tirwedd eang, agored ei wlad. Ymysg y darnau hynny o'i waith rwy'n hoff iawn ohonynt y mae 'Appalachian Spring' (cyfeiria 'Appalachian' at gadwyn o fynyddoedd yng ngogledd-ddwyrain America, a'r 'Spring' at ffynnon yn y mynydd-dir hwnnw – nid at y gwanwyn). Ynddo, gwna Copland ddefnydd o hen alawon Americanaidd, ac yn eu mysg un o hen donau'r Shakers (nid y Crynwyr yr ydym ni'n gyfarwydd â nhw), sef 'Simple Gifts'. Byddwn ni'n arfer cysylltu'r dôn â'r emyn 'Arglwydd y ddawns', ond y geiriau gwreiddiol oedd 'Simple Gifts':

> 'Tis a gift to be simple, 'tis a gift to be free,
> 'tis a gift to come down where we ought to be,
> and when we find ourselves in the place just right,
> 'twill be in the valley of love and delight.

Ymddiheuro a wna Tegwyn Pughe Jones yn un o'i gerddi i genedlaethau'r dyfodol am y difrod yr ydym ni wedi ei greu wrth reibio'r ddaear am ei hadnoddau:

> Nid byd gwell ond bywyd gwaeth
> yw'n hadlodd i'ch cenhedlaeth.

(*Daw'r manylion hyn o 'Is the Cloud Damaging the Planet?', a ddarlledwyd ar raglen *Panorama*, BBC1, ar 6 Chwefror 2023)

*Glyn Tudwal Jones*
*Caerdydd*

(Cyhoeddwyd gyntaf yn *Y Gadwyn,* cylchgrawn Eglwys y Crwys, Caerdydd)

# Ceisiadau a chyfarfodydd Medalau Gee 2023

Cyflwynir medalau Gee yn flynyddol i ffyddloniaid yr ysgol Sul, er cof am Thomas a Susannah Gee. Cyhoeddwr, perchennog newyddiaduron a golygydd o Ddinbych oedd Thomas Gee. Datblygodd Gwasg Gee i fod yn un o'r gweisg pwysicaf yn hanes Cymru, a bu'r wasg yn ddylanwadol iawn am bron i ddwy ganrif, ers ei sefydlu yn nhref Rhuthun.

Mae croeso i ysgolion Sul enwebu medalwyr unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond rhaid i unrhyw gais ar gyfer 2023 fod mewn llaw erbyn 30 Mehefin. Cyflwynir y medalau yn ystod mis Medi.

Rydym ar hyn o bryd yn croesawu enwebiadau am fedalau o blith yr eglwysi yng Nghymru, gan gofio bod yn rhaid i yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaidd/seiadau trafod canol wythnos). Mae modd lawrlwytho ffurflen enwebu o wefan [www.ysgolsul.com](http://www.ysgolsul.com)

Rhaid i bob cais sydd i'w ystyried ar gyfer eleni fod wedi ein cyrraedd ni erbyn 30 Mehefin, fan hwyraf. Mae cyflwyno medalau fel hyn yn ffordd anrhydeddus o ddiolch i athrawon ysgol Sul dosbarthiadau plant ac ieuenctid am oes o wasanaeth, ac i gydnabod ffyddlondeb aelodau dosbarth yr oedolion yn ogystal. Tybed oes yna rywrai yn eich ysgolion Sul chi sy'n disgyn i'r categori hyn? Os oes, yna ewch ati i enwebu!



Gyda llawer o ddiolch,
ar ran Cyngor yr
Ysgolion Sul,
Aled Davies

## HYSBYSEB SWYDD

**Y mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn chwilio am**

**Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol**

Mae'r Undeb yn awyddus i benodi unigolyn(lion) i weithio mewn dau faes allweddol: cenhadaeth a chyfathrebu digidol.
Mae'n bosib ystyried yr hyblygrwydd o rannu swydd.

Bydd yr ymgeisydd(wyr) llwyddiannus yn gweithio gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Cenhadaeth i:
a) gefnogi, datblygu a gweithredu rhaglen strategol o genhadaeth ymysg Eglwysi a Chymanfaoedd a
b) bod yn gyfrifol am gyfathrebu effeithiol, a chynorthwyo'r Undeb ac Eglwysi i ymgysylltu â chenhadaeth Duw mewn oes dechnolegol.

Dylai ymgeiswyr feddu ar sgiliau cyfathrebu, cyfryngau digidol a chreadigol cryf, yn ogystal ag angerdd am ymgysylltu cenhadol.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn Gristion sy'n ymarfer y ffydd ac yn barod i gefnogi amcanion elusennol ac egwyddorion Bedyddiedig Undeb Bedyddwyr Cymru. Oherwydd natur y swydd, mae hyn yn Ofyniad Galwedigaethol Penodol. Mae'r swydd yn cynnig patrymau gwaith hyblyg gyda chyfleon i weithio o gartref a bydd hefyd disgwyliad i weithio ar draws Cymru.

• Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol. Mae Undeb Bedyddwyr Cymru'n gweithredu cyfle cyfartal i bawb ac yn annog ceisiadau o bob sector o'r gymuned.

Cyflog: £29,200 – £31,031
Dyddiad cau: 17eg Ebrill 2023
Dyddiad cyfweld: 26ain Ebrill 2023
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r:
Parch Simeon Baker - Cyfarwyddwr Cenhadaeth
Ffôn: 0345 222 1514 neu ebost: [simeon@ubc.cymru](mailto:simeon@ubc.cymru)



# Rhodd Gostus Crist o Gymod

Cyfres o fyfyrdodau ar gyfer y Grawys gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)



### Wythnos 5

### 'Cynnig gweledigaeth gyda Christ yn ganolog ar gyfer cymodi mewn cymdeithas amlddiwylliannol'

### Ysgrythur: Ioan 14: 5–7

### Myfyrdod

Yr wythnos diwethaf fe wnaethon ni fyfyrio ar ddysgu o brofiad Cristnogion Sri Lanka yn eu gwaith heddwch a chymodi. Mae eu perthynas gyda ffydd eraill yn ffurfio rhan hanfodol o'u gwaith yn adeiladu heddwch. Drwy gydol degawdau o wrthdaro treisgar, mae pobl Sri Lanka wedi bod yn dystion i ganlyniadau dinistriol iaith, agweddau ac ymddygiad sydd yn ceisio dad-ddyneiddio a hyd yn oed difrïo pobl wrth i ni ddiffinio beth yw bod tu allan i'n cymuned. Wrth iddyn nhw weithio i ailadeiladu'r hyn a gafodd ei ddinistrio gan drais ac anghyfiawnder, a goresgyn sawl argyfwng gwleidyddol a chymdeithasol, maen nhw wedi gweld gwerth arweinyddion cymunedau ffydd yn dod ynghyd er mwyn amddiffyn a hyrwyddo'r hyn sydd er lles pawb.

Bu deialog rhyng-ffydd yn faes o ddiddordeb cynyddol i'r mudiad eciwmenaidd mewn degawdau diweddar, ar yr ynysoedd hyn ac yn rhyngwladol. Mae gwaith CTBI yn y maes yma yn seiliedig ar bedair egwyddor a ddatblygwyd gan Gyngor Eglwysi Prydain, a oedd yn ei dro, yn addasu'r hyn a ddysgwyd o brofiad Cyngor Eglwysi'r Byd:

- Bydd deialog yn dechrau pan fydd pobl yn cwrdd â'i gilydd.
- Mae deialog yn dibynnu ar gyd-ddealltwriaeth a chyd-ymddiriedaeth.
- Mae deialog yn ei gwneud hi'n bosibl i rannu mewn gwasanaeth i'r gymuned.
- Daw deialog yn gyfrwng tystiolaeth ddilys.

Ledled Prydain ac Iwerddon mae ein haelod eglwysi wedi cymryd rhan, yn unigol ac ar y cyd, mewn amrywiol gynlluniau sy'n cynnig deialog a chydweithio gyda chynrychiolwyr o grefyddau eraill. Yn ystod pandemig COVID-19, cyfrannodd y ddeialog rhwng cymunedau ffydd a llywodraethau yn gadarnhaol tuag at adeiladu perthynas a chyd-ddealltwriaeth. Gwelsom hefyd arwyddocâd cymunedau ffydd yn dod ynghyd ar adegau o argyfwng a thrawma cymunedol, er enghraifft, yr ymateb ffydd a gafwyd i drychineb Tŵr Grenfell yn 2017, fel y gwelir yn ymchwil Melin Drafod Theos.

Fodd bynnag mae tensiynau, heriau a bylchau sylweddol yn parhau i fodoli. Gall pobl sy'n dod o grefyddau eraill ar wahân i Gristnogaeth barhau i deimlo'n anghofiedig neu wedi eu gwthio i gyrion cymdeithasau a luniwyd i raddfa helaeth gan y ffydd Gristnogol. Hyd yn oed mewn cyd-destun lle gwelir seciwlareiddio cynyddol, gellir llunio ymgysylltiad arweinwyr gwleidyddol a gwneuthurwyr polisi â hunaniaeth grefyddol mewn termau Cristnogol yn bennaf. Ceir galwadau am ostyngeiddrwydd, parch a haelioni pellach gan eglwysi wrth iddyn nhw gydnabod cymunedau ffydd eraill. Gall Cristnogion ei chael yn anodd dirnad beth mae'n ei olygu i fyw yn ffyddlon fel disgyblion Crist, gan dderbyn mai yng Nghrist mae'r ffordd tuag at iachawdwriaeth, fel yr amlinellir yn narlleniad heddiw o'r Ysgrythur, yn ein perthynas gyda thraddodiadau ffydd eraill. Yn yr Efengylau hefyd gwelwn Grist yn dangos gostyngeiddrwydd, parch a haelioni wrth gyfarfod â phobl o ffydd a hunaniaeth wahanol. Yn wir, yr hyn sy'n ei amlygu ei hun gryfaf yw bwriad Crist i groesi ffiniau cymdeithasol er mwyn rhoi'r rhai a gafodd eu gwthio o'r neilltu gan eu cymunedau eu hunain yng nghanol y stori.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cynrychiolwyr rhyng-ffydd a ddygwyd ynghyd gan CTBI wedi myfyrio ar yr hyn mae'n ei olygu i gynnig Crist mewn cymdeithas amlddiwylliannol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar sut y gallem weddïo gyda phobl o ffydd wahanol, a'r hyn mae'n ei olygu i weithio dros dwf eglwysig mewn cymunedau lle mae grwpiau ffydd eraill yn bresennol. Dydyn ni ddim yn ceisio rhoi atebion terfynol na hawdd, ond yn hytrach ceisiwn fyfyrio'n onest ynglŷn â chymhlethdod y materion hyn, ond gan gadw o'n blaenau'r gobaith y gallwn estyn allan i bobl eraill o fan lle mae Crist yn ganolog, mewn modd sydd yn arwain at wasanaeth i'r gymuned a thystiolaeth ffydd ddilys. Gweddïwn am ddoethineb i ofyn cwestiynau da ac i ymgysylltu gyda dewrder a hyder yn ein ffydd, fel na fydd cyfleoedd i dystio yn mynd ar goll oherwydd ofn.

### Cwestiynau

- Beth mae'n ei olygu i fyw ein ffydd Gristnogol mewn byd amrywiol, yn grefyddol a diwylliannol?
- Pa rwystrau i ddeialog onest ac ystyrlon fyddwch chi'n dod ar eu traws gyda phobl o ffydd wahanol? Beth allai helpu i geisio'u datrys?
- Ydy eich eglwys, yn eich profiad chithau, yn hyrwyddo cysylltiadau rhyng-ffydd? Pa newidiadau, os oes angen, yr hoffech chi eu gweld yn yr ymagwedd tuag at ddeialog ryng-ffydd?

### Camau Gweithredu

- Yn eich eglwys leol neu mewn cyd-destun eciwmenaidd, allech chi greu cyfle newydd ar gyfer cyfarfod, deialog a lletygarwch gyda chynrychiolydd o gymuned ffydd arall, neu sawl cymuned ffydd arall?
- Ystyriwch gynnwys dogfen Cyngor Eglwysi'r Byd ar y cyd â'r Cyngor Archoffeiriadol dros Ddeialog Ryng-grefyddol *Gwasanaethu Byd Clwyfedig mewn Cydsafiad Rhyng-grefyddol: Galwad Cristnogol i Weithredu yn ystod Covid-19 a thu hwnt*. Beth sy'n taro tant gyda chi? Sut allech chi roi'r wybodaeth hon ar waith mewn meysydd eraill?
- Allech chi wahodd cynrychiolydd o ffydd arall i sgwrsio am ei brofiad o weddi ac addoli er mwyn helpu i ddatblygu parch a dealltwriaeth, y naill i'r llall?

### Gweddi

Dduw cariadus,
Mae rhaniadau a gelyniaeth rhwng pobl o ffydd
yn gwanhau byd clwyfedig
ac yn rhwystro'r llwybr i heddwch.
Gweddïwn dros bawb sy'n gweithio
i gryfhau rhwymau cymdeithas
rhwng cymunedau ffydd gwahanol.
Bendithia'r gwaith yma o gyfarfod, deialog a chyfeillgarwch
fel y bydd yn dwyn ffrwyth mewn cymunedau cyfiawn a thrugarog.
Helpa bob un ohonom i ddod at bobl o ffydd wahanol
heb ofn na rhagfarn
gyda chalonnau sy'n agored i rannu Crist
a gwella perthnasau toredig
drwy wrando'n rasol.
Amen.

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 26 Mawrth, am 7.30yh**
Mae 64 o Gymry adnabyddus wedi dewis eu hoff emyn ar gyfer y gyfrol *Hoff Emynau'r Cymry*, a olygwyd gan y gweinidog a'r cerddor Robert Nicholls. Cawn gyfarfod rhai o'r unigolion hyn a chlywed hanes eu hoff emynau.

BBC radio cymru


***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 26 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Trystan Lewis yn cyflwyno emynau o Gymanfa Westminster 2022

**Sul, 26 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Carys Mai Jones, Caerdydd

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Y Parchg Gwynfor Williams

*Dyma grynodeb o deyrnged a draddodwyd yn ei angladd gan ei ferch Eurgain*



Ganwyd Dad 90 o flynyddoedd yn ôl, yr ail blentyn i Thomas a Nellie Williams. Roedd Taid wedi gobeithio galw Dad yn Jack Vincent achos roedd yn meddwl ei fod yn enw andros o dda i *private detective*, gan mai dyna oedd gobaith Taid y byddai gyrfa Dad, ond chafodd o mo'i ffordd ei hun gan Nain, ac fe'i bedyddiwyd yn Gwynfor. Mi gafodd blentyndod hapus iawn. Un o'i bleserau mwyaf yn fachgen oedd treulio oriau efo'r merlod gwyllt ar ochr y bryniau. Diddordeb a barodd weddill ei oes.

### Dechreuadau

Tra bu yn yr ysgol yn yr *higher grade* yng Nghaernarfon meddyliodd ymuno â'r French Foreign Legion gan fod ffrind iddo wedi ymuno. Ond nid felly y bu yn hytrach aeth i weithio i D. J. Williams, yn yng ngwaith haearn Brunswick, yng Nghaernarfon. Dywedodd lawer gwaith nad oedd y telerau'n dda o gwbl, ac felly cafodd brentisiaeth fel brici efo Mr Salesbury. Roedd ganddo barch mawr iawn at Mr Salesbury gan fod yr amodau a'r cyflog yn deg iawn.

### Teulu

Yn 1955 fe briododd Mam a Dad, partneriaeth a barodd 67 o flynyddoedd. Ganwyd fi Eurgain yn 1957 a Delyth bum mlynedd yn ddiweddarach. Hefyd ystyrid Dafydd, ein cefnder, fel pe bai yn fab. Magwyd Dafydd gan Taid a Nain a byddai Dad yn mynd â fo am dro yn y goets i fyny lôn Tŷ Du, Clegir. Roedd Clegir yn annwyl iawn gan Dad gan mai ym Mhen-gwaith, neu i roi ei enw llawn iddo, Penbwlchygroes, yr hanai teulu Nain. Roedd mor falch o fod yn olyniaeth teulu Pengwaith a bod ei gyndeidiau yn gyfrifol am gapel Clegir.

### Diddordebau

Y bryniau oedd ei fan chwarae yn ystod ei blentyndod a does ryfedd iddo fod yn un o sylfaenwyr Tîm Achub Mynydd Llanberis ynghyd â Christopher Briggs o westy Penygwryd. Yn y cyfnod hwn y daeth yn ffrindiau efo Edmund Hillary a Sherpa Tenzing a oedd yn ymwelwyr cyson â'r ardal.

### Gyrfa

Am gyfnod bu'n gweithio i adran addysg Cyngor Sir Gaernarfon cyn ymuno yn y 60au â'r gwasanaeth ambiwlans. Dyma pryd y gwelodd bethau dychrynllyd iawn. Fe fu damwain angheuol ar Yr Wyddfa pryd y bu farw nifer o hogiau bach eu bywydau wrth ddisgyn i'w marwolaeth. Yn ystod yr holl dristwch a welodd, ni chollodd ei ffydd o gwbl, os rhywbeth fe'i gwnaeth yn gryfach a rhoi'r empathi i ddelio efo problemau pobol boed yn feddyliol neu gorfforol. Rydan ni'n meddwl fod Mam yn un o fil achos roedd Dad wedi cael BA ers blynyddoedd. Doedd o byth adra! Mi roddodd flynyddoedd o'i amser i fod yn ynad heddwch a bu'n weithgar iawn efo Urdd Sant Ioan. Derbyniodd fedal y *British Empire* am ei ymroddiad a'i waith diflino i'r Urdd a bu Mam a Dad mewn garddwest ym mhalas Buckingham. Roedd Dad yn eithriadol o ffeind ond does rhyfedd yn y byd. Roedd ei fam a'i hen nain yn ffeind ofnadwy yn rhannu eu ceiniogau olaf.

### Gweinidog

Roedd Dad tua 7 oed, medd Elisabeth ei gyfnither, pan ddaru bregethu gyntaf, a hynny yn y Ddôl, Llanddeusant, cartref ei nain.

Yn 1981 fe'i hordeiniwyd yn weinidog yn y Gaerwen a Llanddaniel Fab. Bu yn weinidog ar amryw o eglwysi yn ystod y blynyddoedd ond yr hyn a roddodd fwyaf o loes oedd yr achos yn Ebenezer yn cau. Ei weledigaeth oedd parhau i addoli fel eglwys a defnyddio'r capel yma i gynnal yr achos. Ond nid felly y bu.

Roedd Dad yn gredwr cryf mewn bugeilio ac yn ymweld yn rheolaidd â'i aelodau boed mewn cartref neu ysbyty, rhywbeth sydd ar goll efallai heddiw, ac un o'r rhesymau pam fod cymaint o'n haddoldai yn cau.

*[Dros y blynyddoedd bu Gwynfor yn weinidog ar eglwysi; Cana, Llanddaniel a Berea, Gaerwen 1981–5; Jerwsalem, Llanberis, 198 –93; Tabernacl, Cwm-y-glo 1988–2008 a Bethel, Arfon 1991–2008; Seion, Llanddeiniolen a Saron Bethel, 1995–2008; Bethmaca 1996–2008; Pendref 2002–8. Gol.]*

# Angor Grangetown

Un o'r cynlluniau arloesol a noddir gan Gynllun Buddsoddi ac Arloesi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yw Angor, Grangetown, Caerdydd. Y mae hwn yn digwydd o dan adain eglwys Ebeneser ac yn rhan o'n gweledigaeth i gyrraedd rhagor o'r 35 mil o Gymry Cymraeg sy'n byw yn y brifddinas. Ein gweledigaeth yn y pendraw yw sefydlu cynulleidfa, Grist-ganolog, gyfoes yn Grangetown. Er y nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, 10.2% yn ôl Cyfrifiad 2011, nid oes eto eglwys Gymraeg sy'n gwasanaethu'r gymuned. Fe olyga hynny fod dros 2,000 o'r boblogaeth yn y rhan hon o'r ddinas yn siarad Cymraeg. Wrth inni gychwyn ar y gwaith hwn fe sylweddolwn, yn y dyfodol agos, y bydd rhaid cychwyn gweithgareddau Cristnogol Cymraeg mewn llawer i ardal lle mae'r dystiolaeth Gristnogol wedi darfod. Gobeithiwn y bydd ein profiadau ni o fantais ac anogaeth i Gristnogion eraill.




Bu'r flwyddyn ddiweddaf (2022) yn un heriol. Caeodd Lufkin Coffee, y man cyfarfod gwreiddiol, yn gwbl ddirybudd ym mis Chwefror a buom am dros ddau fis heb fan cyfarfod addas. Rydym yn credu bod lleoliad, naws a hygyrchedd y man cyfarfod yn bwysig i'n cenhadaeth er mwyn denu teuluoedd a chenhedlaeth iau. Ond ym Mis Ebrill fe gafwyd lleoliad newydd, addas, sef, canolfan Reach, Grangetown. Mae hon yn ganolfan

*parhad ar y dudalen gefn*

# Barn Annibynnol

## MAE GOBAITH O HYD – ER GWAETHAF ...

Tybed beth yw'ch barn am bolau piniwn? Yn gyffredinol, mae yna duedd i'w derbyn gyda breichiau agored os yw'r canlyniadau'n ffafrio'ch safbwynt a'u dilorni a'u hanwybyddu pan nad ydynt.

Roedd canlyniadau pôl piniwn cymharol ddiweddar gan YouGov yn awgrymu fod crefydd ar y cyfan, ym marn y mwyafrif a holwyd, yn dylanwadu'n negyddol ar y byd. Yn hynny o beth, dyw'r farn yng Nghymru ddim yn wahanol i'r farn yn Lloegr a'r Alban. Eithaf sylweddol hefyd yw'r agendor rhwng y negyddol a'r cadarnhaol, gan awgrymu felly nad oes modd wfftio'r canlyniadau'n llwyr. Ond beth am i ni feddwl am y sefyllfa yn nes adref? Beth am Gymru? Pam mae'n sefyllfa ni, Gristnogion, yn ymddangos mor negyddol?

### Negyddiaeth

Yn anffodus, dyw'r geiriau 'cyffrous', 'llawen' ac 'optimistaidd' ddim yn dod i feddwl llawer yn syth wrth ystyried Cristnogion. Yn naturiol, rydym yn gofidio am gyflwr ein byd, ein gwlad a'n diwylliant. Eto i gyd, onid yw'n ynfyd ein bod yn gallu dweud cymaint y mae'r byd angen Iesu mewn dull mor ddiflas? Oni ddylai hynny ein cyffroi yn fwy na dim byd? Rydym yn gofidio mwy am y llanast y bydd angen i Iesu ei lanhau yn hytrach na dathlu'r ffaith ei fod wedi addo'n helpu i'w lanhau. Os nad ydym yn hynod o ofalus, bydd ein hagweddau gwael, ein cwynion a'n gofidiau yn rhoi'r argraff i bobl nad oes gennym obaith i'w gynnig iddynt.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, y mae'r tair ardal yng ngwledydd Prydain gyda'r ganran uchaf o bobl sy'n dweud eu bod yn ddigrefydd i gyd yng Nghymru: Caerffili, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf – siroedd ble mae addysg Gymraeg yn ffynnu. Ar draws Cymru mae oedran, yn sicr, yn ffactor yn hyn o beth. Mae'r boblogaeth Gristnogol yng Nghymru yn gymharol hen a'r gyfran farwolaethau'n effeithio arni. Yn ôl data'r Cyfrifiad, mae oedran cyfartalog credinwyr yng ngwledydd Prydain wedi llamu dros 50 erbyn hyn. Mae'n amlwg hefyd fod diffyg trosglwyddo Cristnogaeth o un genhedlaeth i'r llall yn ffactor allweddol.

### Y Gymraeg

Rydym yn ceisio gwneud rhywbeth o ddifrif ynghylch diogelu a throsglwyddo'n hiaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o ddyblu cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mor ofnadwy o heriol fydd cwrdd â'r targedau hyn, mae o leiaf ymdrech ar waith. A yw diogelu a throsglwyddo Cristnogaeth yn flaenoriaeth i ni? A oes strategaeth a thargedau ar waith?

Mae un cipolwg ar gyflwr ein crefydd gyfundrefnol yng Nghymru heddiw yn awgrymu'n gryf na allwn ddatblygu strategaeth i ddiogelu Cristnogaeth mewn dull effeithiol heb i ni geisio crynhoi'n hadnoddau a chydweithio'n well.

### Arwyddion bywyd

Onid braf bob amser yw gweld arwyddion o fywyd mewn eglwys a chapel! Prin iawn oedd yr enghreifftiau tros y Nadolig o eglwysi a chapeli yn dangos arwydd allanol eu bod yn dathlu geni Gwaredwr y Byd. Tywyllwch pur heb unrhyw oleuni o gwbl, gan awgrymu bod angen llawer iawn o waith i adfywio'n capeli a'n heglwysi, yn enwedig y rhai cyfrwng Cymraeg. Os nad oes awch ynom i ymroi i fywyd capel ac eglwys ac i rannu'r ffydd Gristnogol mewn gair a gweithred a'i hamlygu, prin y gellir disgwyl dychweledigion.

### Amherthnasol

Dywedodd arbenigwr gwleidyddol ar *Y Byd ar Bedwar* yn ddiweddar nad oes yr un o'n henwadau'n bwysig iawn y dyddiau hyn yn ein bywyd beunyddiol yng Nghymru, gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru. A dyna'r canfyddiad sydd gan nifer helaeth o bobl heddiw. Rydym yn gallu dadlau ynghylch pwysigrwydd perthnasedd hyd ddydd y farn ond y gwir yw nad yw eglwysi amherthnasol yn creu nemor ddim argraff ar y gymuned o'u cwmpas. Perthnasedd sy'n ennill gwrandawiad. Mae'n pennu a yw pobl yn cymryd sylw ohonom ai peidio. Gall ymddangos weithiau fod cymdeithas yn dylanwadu'n fwy ar yr eglwys nag y mae'r eglwys yn effeithio ar y gymdeithas. Mae newid yn anodd ar y gorau ond os yw hyd yn oed sôn am newid yn ein gwneud yn flinedig, mae'n arwydd ein bod yn prysur ddod yn amherthnasol. Mae'r heriau sy'n wynebu'r eglwys yn fawr. Ac mae dylanwad y sgandalau cam-drin rhywiol a'r ymateb iddynt, yn enwedig yn yr Eglwys Babyddol, yn golygu fod crefydd wedi colli hygrededd ymhlith llawer. Ond nid Cristnogaeth yw'r bwgan. Dywedodd Mahatma Gandhi unwaith am y ffydd Gristnogol: 'Dw i'n hoffi'ch Crist ond dw i ddim yn hoffi'ch Cristnogion. Mae'ch Cristnogion mor wahanol i'ch Crist.' Ydyn ni'n cynrychioli Crist mewn gwirionedd?

### Llecynnau golau

Rhwng popeth, efallai nad yw'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n ystyried eu hunain yn Gristnogion yn syndod. Mae'r cyfnod hwnnw wedi hen fynd. Ond rhaid peidio â digalonni. Mae llecynnau golau o hyd. Yn ôl at y polau piniwn am funud. Efallai bod pobl yn datgan eu bod yn ddigrefydd ond mae'r polau piniwn yn dangos yn gyson fod yr un bobl yn parhau i geisio canfod gwirionedd ysbrydol, doethineb a gwerthoedd. Mae yna her a chyfle i ni, Gristnogion, o hyd – ond nid heb ymroddiad go iawn!

**R. Alun Charles**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Adnodd newydd

Elusen Gristnogol yw Open Doors sy'n tynnu sylw at yr erledigaeth chwyrn y mae Cristnogion yn ei wynebu ar hyd a lled y byd. Yn flynyddol y maent yn cyhoeddi adnoddau Cymraeg gwych sy'n rhannu gwybodaeth am y sefyllfaoedd enbydus y mae ein brodyr a'n chwiorydd yn eu dioddef gan ein hannog i gofio amdanynt ac i weddïo drostynt fel Eglwysi.

Yr wythnos hon fe ryddhawyd fideo Cymraeg ganddynt y gallwn ei ddefnyddio yn ein hoedfaon neu ar ein cyfryngau cymdeithasol er mwyn tynnu sylw at yr anghyfiawnderau hyn. Er mwyn gweld y fideo ewch i https://vimeo.com/806413202/ea1f1d2b9f



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Angor Grangetown – *parhad*

sy'n cael ei defnyddio gan y gymuned leol ac felly yn dod a ni i gysylltiad â mudiadau a phrosiectau eraill.

Er yr anghyfleustra fu y mae Angor Grangetown wedi parhau i gyfarfod yn wythnosol gyda chwrdd gweddi a chyfarfod o fawl pob yn ail Sul. Hoffem ddiolch i'r Undeb am y nawdd yr ydym wedi ei dderbyn sydd wedi bod yn help aruthrol i'r gwaith ac i'n gweledigaeth hirdymor. Erbyn hyn y mae rhwng 12 a 30 yn dod i'r cyfarfodydd yn gyson. Hoffem gyfeirio yma at elfennau heriol a chadarnhaol sydd i'r gwaith.

## Heriau

Oherwydd natur yr hyn a wnawn y mae'n anodd meithrin cysondeb presenoldeb yn y rhai sy'n ymuno â ni. Daw rhai wrth gwrs yn gyson, daw eraill yn achlysurol tra bydd rhai yn dod unwaith. Y mae hyn yn effeithio ar ein paratoadau o ran lluniaeth a gwaith plant. Ni wyddom o wythnos i wythnos pwy ddaw. Hefyd oherwydd ein bod yn targedu oedolion ifanc a theuluoedd, fe olyga bod llawer o fynd a dod yn eu hanes. Y mae patrwm cymdeithasol teuluoedd yn llawer mwy hylifol nac y bu yn y gorffennol.


## Llwyddiannau

1. Rydym wedi llwyddo i gyrraedd rhai teuluoedd sydd ddim yn mynychu unrhyw le o addoliad yng Nghaerdydd.
2. Rydym yn fwriadol wedi mynd ati i feithrin arweinyddion newydd, fel rhan o'r tîm trefnu ac i arwain cyfarfodydd un ai trwy, weddïo, darllen, rhannu profiad, arwain addoliad, technegau neu bregethu, e.e. buom yn annog gŵr ifanc, oedd â doniau cerddorol i fod yn fawlweinydd. Tros gyfnod aeddfedodd ei ddoniau ac er mawr lawenydd inni dros yr haf fe'i penodwyd gan gylch o eglwysi cydenwadol yn Llundain i gyflawni gwaith plant ac ieuenctid. Hyderwn y bydd yn dychwelyd yn ôl i Gymru yn fuan gyda phrofiad ychwanegol i wasanaethu'r Arglwydd. Enghraifft arall o hyn yw bod menyw yn ei dauddegau wedi dechrau pregethu yn ddiweddar a hynny trwy anogaeth a chefnogaeth Angor. Mae hyn wedi bod yn wych.
3. Yn nhymor yr Adfent cynhaliwyd noson garolau yng nghanolfan y Pavilion pryd y daeth criw o bobl leol a chyfeillion i ddathlu. Gwelwn y digwyddiadau hyn fel cyfle i gymdeithasu a gwneud cysylltiadau gyda Chymry Cymraeg Grangetown a hefyd i gydweithio gydag eglwysi eraill. Yn syml, mae pobl o bob math yn hoff iawn o'r Nadolig. Hefyd daeth Meilyr Geraint atom i gynnal oedfa Nadoligaidd oedd yn dathlu geni gwyrthiol y Meseia Iesu ac yn cyhoeddi'n llawen y newyddion da ddaeth ynddo Ef.

Gobeithiwn yn ystod y misoedd nesaf i barhau gyda'n gweithgareddau i dystio i'r Arglwydd Iesu yn egnïol. Yn y tymor canolig hoffem ddatblygu ein gwaith gyda phlant trwy sefydlu clwb plant fydd yn cynnwys clwb yn ystod gwyliau ysgol. Cynnal rhagor o weithgareddau cymdeithasol eu naws er mwyn dod i adnabod pobl yn well. A hefyd ymateb i'r angen cymdeithasol sydd yn Grangetown e.e. tlodi bwyd a thanwydd mewn cydweithrediad ag Ebeneser.

> Meddai wrthyn nhw, 'Mae'r cynhaeaf mor fawr, a'r gweithwyr mor brin! Felly, gofynnwch i Arglwydd y cynhaeaf anfon mwy o weithwyr i'w feysydd.'
>
> (Luc 10:2)






*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*